| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad:** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **Pwnc:** | Diweddariad Archwilio Mewnol |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor<br>Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |

**Natur a Rheswm dros Adrodd:**
Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gosod dyletswydd benodol ar y pwyllgor i oruchwylio trefniadau archwilio mewnol y cyngor fel rhan o'i ddyletswyddau deddfwriaethol, dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. (3.4.8.10.1)

Mae gofyn i'r pwyllgor ystyried y diweddariadau ar waith archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, materion sy'n achosi pryder, ymatebion rheolwyr a'r camau sydd wedi eu cymryd o ganlyniad i waith archwilio mewnol. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol fel y gofynnwyd, gan gynnwys effeithlonrwydd rheoliadau mewnol a bydd yn monitro gweithrediad camau a gytunwyd arnynt. (3.4.8.10.10)

Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (sector cyhoeddus y DU) newydd, sy'n cael eu mandadu o 1 Ebrill 2025 ac maent yn cynnwys Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yr IIA a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang sector cyhoeddus y DU a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y DU.

Mae hefyd yn cyd-fynd â'r arferion sy'n cael e hargymell ar gyfer goruchwylio archwilio mewnol, fel y nodir yn Natganiad Sefyllfa CIPFA: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu 2022.

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Safon 11.3 y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu canlyniadau gwasanaethau archwilio mewnol gyda'r bwrdd ac uwch reolwyr yn rheolaidd ac ar gyfer pob gweithgaredd. Yn ychwanegol at hyn, mae Safon 15.1 yn gofyn i'r prif swyddog archwilio rannu'r cyfathrebiad olaf gyda'r rheiny a all sicrhau bod y canlyniadau'r cael eu hystyried yn briodol.

1.2 Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r pwyllgor, fel y mae'r sefyllfa ar 30 Mehefin 2026, ar yr archwiliadau a gwblhawyd ers y diweddariad diwethaf ar 28 Ebrill 2026, llwyth gwaith presennol archwilio mewnol a'n blaenoriaethau ar gyfer y tymor byr a chanolig wrth symud ymlaen.

## 2. Argymhelliad

2.1 Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried:
- canlyniad gweithgareddau Archwilio Mewnol,
- y sicrwydd a ddarparwyd a'n
- blaenoriaethau wrth symud ymlaen.

# Diweddariad Archwilio Mewnol

Gorffennaf 2026





Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Pennaeth Archwilio a Risg




# Cynnwys

Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf ___ 1
Tystysgrifau Cronfeydd Ysgolion ___ 2
Rhaglenni'r Grant Addysg Gynnar a Gofal Plant (Adolygiad Dilynol Cyntaf) ___ 2
Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd (Adolygiad Dilynol Cyntaf) _ 3
Rheoli Risg Strategol: Diogelu (Athrawon Llanw) ___ 3
Systemau Ariannol: Credydwyr ___ 4
Camau Gweithredu sy'n Weddill ___ 5
Blaenoriaethau ___ 6
Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig ___ 6
Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy ___ 6

# Crynodeb o Waith Sicrwydd a Gwblhawyd ers y Diweddariad Diwethaf

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o adroddiadau sicrwydd a gwblhawyd ers y cyfarfod ym mis Mai 2026, gan gynnwys y radd sicrwydd gyffredinol a nifer y 'materion/risgiau/cyfleoedd' a godwyd.

Rydym wedi cwblhau **pum** darn o waith sicrwydd yn ystod y cyfnod, ac maent wedi'u crynhoi isod. Ceir trafodaeth fwy manwl arnynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad:

| Teitl | Lefel Sicrwydd | Critigol | Sylweddol | Cymedrol |
|---|---|---|---|---|
| Tystysgrifau Cronfeydd Ysgolion | **Rhesymol** | 0 | 0 | 4 |
| Rhaglenni'r Grant Addysg Gynnar a Gofal Plant (Adolygiad Dilynol Cyntaf) | **Rhesymol** | 0 | 1 | 5 |
| Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd (Adolygiad Dilynol Cyntaf) | **Rhesymol** | 0 | 1 | 6 |
| Rheoli Risg Strategol: Diogelu (Athrawon Llanw) | **Cyfyngedig** | 0 | 5 | 1 |
| Systemau Ariannol: Credydwyr | **Cyfyngedig** | 0 | 5 | 1 |

## Tystysgrifau Cronfeydd Ysgolion

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 4 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A oes gan y cyngor drefniadau effeithiol ar waith i gael digon o sicrwydd fod cronfeydd 'answyddogol' ysgolion yn cael eu rheoli'n effeithiol?**

Mae'r adolygiad yn darparu sicrwydd rhesymol fod gan y cyngor drefniadau effeithiol i dderbyn sicrwydd digonol ynghylch rheoli cronfeydd 'answyddogol' ysgolion. Mae'r canlyniad yn gadarnhaol ar y cyfan, ac mae fframwaith reoli ar waith sydd wedi'i hen sefydlu, a thystiolaeth fod y rhan fwyaf o gronfeydd ysgolion yn derbyn archwiliad blynyddol a bod y wybodaeth ariannol ar y tystysgrifau'n gywir ar y cyfan.

Mae gan y cyngor ganllawiau, templedi tystysgrifau, rhestrau gwirio i archwilwyr a hyfforddiant rheolaidd ar gyfer penaethiaid a llywodraethwyr. Mae cyfleusterau storio canolog SharePoint a gyflwynwyd yn ddiweddar wedi gwella gwydnwch, hygyrchedd a pharhad. Fodd bynnag, nododd yr adolygiad achosion lefel isel o ddiffyg cydymffurfio mewn rhai ysgolion, gan gynnwys cofnodion tystysgrifau anghyflawn , defnyddio ffurfiau sydd wedi dyddio, llofnodion ar goll, defnydd anghyson o'r rhestr wirio i archwilwyr a gwariant amhriodol mynych.

Er nad yw materion unigol yn arwyddocaol ar eu pen eu hunain, gyda'i gilydd maent yn gostwng sicrwydd ac yn cynyddu'r risg o arferion ariannol gwael, camddefnyddio arian neu dwyll. Mae'r materion hyn yn gysylltiedig â rolau a chyfrifoldebau aneglur o fewn y Gwasanaeth Dysgu, newidiadau staffio sylweddol a diffyg nodiadau proses ffurfiol i sicrhau parhad busnes.

Codwyd pedwar Mater/Risg/Cyfle cymedrol a'u cytuno â rheolwyr.

## Rhaglenni'r Grant Addysg Gynnar a Gofal Plant (Adolygiad Dilynol Cyntaf)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 5 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd yn ein hadroddiad ar 'Raglenni'r Grant Addysg Gynradd a Gofal Plant', a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025, ac a oedd yn darparu lefel Resymol o sicrwydd ynglŷn â llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol o'r maes?**

Daw'r adolygiad dilynol i'r casgliad bod y cyngor wedi gwneud cynnydd rhesymol wrth fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn yr archwiliad ym mis Mawrth 2025 o Raglenni'r Grant Addysg Gynnar a Gofal Plant. Mae'r radd sicrwydd yn parhau'n Rhesymol, gan adlewyrchu gwelliannau yn y trefniadau llywodraethu a rheolaeth, yn cynnwys diweddaru dogfennau tendr, cynllun cyfathrebu, cynnydd o ran y cynlluniau ehangu a chapastiti staffio cryfach.

Mae un mater sylweddol a phump cymedrol yn parhau i fod ar agor. Y mater mwyaf arwyddocaol sydd angen sylw yw'r angen i ehangu mynediad at elfen Addysg Blynyddoedd Cynnar y grant er mwyn caniatáu i'r holl ddarparwyr gofal plant nas cynhelir cymwys sydd wedi cofrestru ag AGC gymryd rhan, yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae gwaith adolygu a safoni'r broses hon yn mynd rhagddo. Mae angen cynnydd pellach hefyd mewn perthynas â threfniadau TG a chwblhau asesiadau effaith yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru.

Yn gyffredinol, mae trefniadau ar gyfer rheoli risgiau'n gysylltiedig â'r rhaglen wedi gwella ers yr adolygiad gwreiddiol. Fodd bynnag, mae angen parhau i fonitro i sicrhau fod y gweithredoedd sy'n weddill yn cael eu cwblhau, bod risgiau'n derbyn sylw a bod y rhaglen yn parhau i fodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru.

## Diogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd (Adolygiad Dilynol Cyntaf)

| Sicrwydd Rhesymol | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 6 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A yw rheolwyr wedi mynd i'r afael â'r 'Materion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2025 ac a oedd yn darparu Sicrwydd Cyfyngedig mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol o'r maes.**

Mae'r adolygiad dilynol cyntaf o Ddiogelwch TGCh mewn Ysgolion Uwchradd yn cadarnhau fod rheolwyr wedi gwneud cynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r materion, risgiau a chyfleoedd a nodwyd yn yr archwiliad ym mis Tachwedd 2025, a oedd yn darparu Sicrwydd Cyfyngedig yn wreiddiol. Canfu'r gwaith dilynol fod llywodraethiant, seilwaith a mesurau diogelwch wedi cryfhau, gan olygu bod modd cynyddu'r radd sicrwydd i **Sicrwydd Rhesymol**.

Mae pedwar mater a nodwyd yn flaenorol wedi derbyn sylw, ac mae'r camau a gymerwyd yn golygu fod tri risg sylweddol wedi gostwng i gymedrol. Mae gwelliannau'n cynnwys cynnydd mewn perthynas â gwella trefniadau hidlo'r we ac adroddiadau diogelu, gwirio trwyddedau meddalwedd, ymateb i ddigwyddiadau seiber a chynllunio parhad busnes, trefniadau rheoli patsys a chryfhau rheolaethau'n gysylltiedig ag ystafelloedd gweinyddion a chael gwared ar gyfarpar TGCh.

Mae gwaith yn parhau ar un mater sylweddol a chwe mater cymedrol. Mae'r prif weithredoedd sy'n weddill yn cynnwys cwblhau hyfforddiant ymateb i ddigwyddiadau seiber, cwblhau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, parhau â gwaith mudo i Microsoft Intune, gweithredu cyfyngiadau mynediad gweinyddwyr, gweithredu'r newidiadau i bolisi cyfrinair ac adolygu trefniadau cyflenwad pŵer di-dor (UPS). Bydd y gweithredoedd hyn yn parhau i gael eu monitro drwy gyfrwng proses fonitro archwilio mewnol.

## Rheoli Risg Strategol: Diogelu (Athrawon Llanw)

| Sicrwydd Cyfyngedig | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| | 0 | Critigol |
| | 5 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A yw trefniadau'r Cyngor yn ddigon effeithiol i sicrhau bod athrawon llanw yn cael eu recriwtio'n ddiogel a'u bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu?**

Er bod arferion diogelu yn amlwg yn y sampl o ysgolion, gan gynnwys cyfeirio at Arweinyddion Diogelu dynodedig, trefniadau mewngofnodi ysgolion ac ymateb yn briodol i ddigwyddiadau sy'n cael eu nodi, canfu'r adolygiad nad yw'r amgylchedd rheoli cyffredinol yn gweithredu'n ddigon cyson i ddarparu sicrwydd cadarn.

Darparwyd **Sicrwydd Cyfyngedig** felly. Mae'r prif feysydd sydd angen eu gwella'n ymwneud ag anghysonderau mewn perthynas ag adnewyddu gwiriadau recriwtio mwy diogel, tystiolaeth gyfyngedig bod athrawon llanw yn cael eu cynefino ac yn derbyn gwybodaeth am ddiogelu, a'r angen am berchnogaeth fwy eglur a threfniadau uchafu os yw pryderon yn ymwneud â staff cyflenwi sy'n gweithio mewn nifer o leoliadau gwahanol. Fel rhan o'n gwaith samplo nodwyd dau achos lle nad oedd gwiriadau DBS a'r Gweithlu Cyngor Addysg wedi cael eu hadnewyddu, gan atgyfnerthu'r angen am drefniadau monitro canolog dibynadwy, yn enwedig gan fod y cynllun peilot 'Teacher Booker' yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2026.

Codwyd chwe Mater / Risg, yn cynnwys pum mater sylweddol ac un mater cymedrol. Mae rheolwyr wedi cytuno ar gynllun gweithredu, ac mae disgwyl i'r rhan fwyaf o weithredoedd dderbyn sylw erbyn mis Medi 2026, a'r weithred sy'n weddill erbyn Tachwedd 2026. Oherwydd yr oblygiadau traws-wasanaeth i ysgolion, y Gwasanaeth Dysgu, AD a Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd uwch arweinwyr yn monitro cynnydd a bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad adolygiad dilynol ym mis Chwefror 2027.

## Systemau Ariannol: Credydwyr

Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn allweddol a ganlyn:

> **A oes trefniadau effeithiol ar waith gan y cyngor i sicrhau fod y taliadau a wneir ganddo i gyflenwyr am nwyddau a gwasanaethau yn ddilys, yn gywir, yn brydlon a bod dogfennau priodol i'w cefnogi?**

Mae'r cyngor cyfan yn cyfrannu at sicrhau fod taliadau a wneir ganddo i gyflenwyr am nwyddau a gwasanaethau yn ddilys, yn gywir, yn brydlon a bod dogfennau priodol i'w cefnogi. Cyfrifoldeb **gwasanaethau** yw cwblhau diwydrwydd dyladwy i sicrhau fod y cyngor yn delio â sefydliad/unigolyn addas a phriodol, cwblhau'r cais i sefydlu cyflenwr a chreu archeb brynu fel y manylir yn y Llawlyfr Caffael, sef sylfaen proses Gredydwyr gref. Mae'n rhaid i'r **Swyddog 151** sicrhau fod y fframwaith, systemau a throsolwg yn ddigon cadarn i warantu cywirdeb pob taliad. Tîm sy'n delio â thrafodion yw'r **tîm Cyflogau a Thaliadau** ac maent yn prosesu ceisiadau i sefydlu credydwyr, anfonebau, nodiadau credyd a thaliadau credydwyr.

Oherwydd bod sicrwydd ar gyfer pob maes yn amrywio'n sylweddol cawsant eu nodi ar wahân:

### Gwasanaethau - Cydymffurfio

| Sicrwydd | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Cyfyngedig | 0 | Critigol |
| | 1 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

### Swyddog Adran 151 - Polisi

| Sicrwydd | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Cyfyngedig | 0 | Critigol |
| | 4 | Sylweddol |
| | 0 | Cymedrol |

### Tîm Cyflogau a Thaliadau - Prosesu

| Sicrwydd | Materion / Risgiau / Cyfleoedd | |
|---|---|---|
| Sicrwydd Rhesymol | 0 | Critigol |
| | 0 | Sylweddol |
| | 1 | Cymedrol |

Yn gyffredinol, canfu'r archwiliad wendidau mewn prosesau credydwyr sydd yn rhoi'r cyngor mewn perygl o wneud camgymeriadau wrth wneud taliadau, twyll ac aneffeithiolrwydd.

Mae'r pryderon mwyaf sylweddol yn ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth gwasanaethau mewn perthynas â sefydlu cyflenwyr, cymeradwyo gwariant a'r llwybr cywir ar gyfer gwneud taliadau, a bod canllawiau ar gyfer defnyddwyr nad ydynt yn staff cyllid yn annigonol ac wedi dyddio. Oherwydd y gwendidau hyn nodwyd pum mater sylweddol mewn perthynas â chydymffurfiaeth gwasanaethau a pholisi.

Mae rheolaethau prosesu craidd y tîm Cyflogau a Thaliadau'n gweithredu'n fwy effeithiol ac mae dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n dda a thaliadau cael eu gwneud yn brydlon ar y cyfan, er bod angen gwella adroddiadau ynglŷn â hen ddyledwyr a nodiadau credyd nad ydynt wedi cael eu datrys.

Codwyd cyfanswm o chwe Mater / Risg / Cyfle y mae angen i reolwyr roi sylw iddynt a chyfraniad gan y cyngor cyfan. Mae rheolwyr wedi cytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r canfyddiadau erbyn Mehefin 2027. Bwriedir cynnal adolygiad dilynol ym mis Rhagfyr 2026 i asesu cynnydd yn erbyn y gweithredoedd a gytunwyd a bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n derbyn adroddiad yr adolygiad hwnnw ym mis Chwefror 2027.

# Gwaith ar y Gweill


Mae'r gwaith canlynol ar y gweill ar hyn o bryd:

| Maes | Rheswm dros yr Archwiliad | Cam |
|---|---|---|
| Archwiliad TG: Rheoli Asedau TG Strategol | Cofrestr Risgiau Strategol (YM3) | Pennu Cwmpas |
| Rheoleiddio ac Economaidd | Ymchwiliad – ar gais Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adain 151 | Gwaith Maes |
| Anghysonderau mewn perthynas â Chronfa Ysgol Gynradd | Ymchwiliad - ar gais Pennaeth | Adroddiad drafft |
| Cyllid Gofal Cymdeithasol Oedolion: Asesiadau Ariannol - Gofal Preswyl a Nyrsio | Adolygiad Dilynol Cyntaf | Adroddiad drafft |
| Rheolaeth Ariannol mewn Ysgolion | Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2025-26 | Gwaith Maes |
| Cynllun Treth y Diwydiant Adeiladu | Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27 | Gwaith Maes |
| Strategaeth rheoli coed ym mherchnogaeth y Cyngor | Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27 | Gwaith Maes |
| Diogelu mewn perthynas â Chludiant Ysgol | Ar gais Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu ac Ansawdd Ymarfer) | Pennu Cwmpas |
| Digartrefedd a defnyddio llety dros dro | Blaenoriaeth Strategol Archwilio Mewnol 2026-27 | Pennu Cwmpas |

# Camau Gweithredu sy'n Weddill

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi gwasanaethau i fynd i'r afael â'r holl 'Faterion / Risgiau / Cyfleoedd' a godwyd, a rhoi'r holl gamau gweithredu sy'n weddill ar waith.

Y sefyllfa ar 30/06/26 oedd bod dau gweithred 'cymedrol' wedi cyrraedd y dyddiad targed ar gyfer eu cwblhau ac maent bellach yn 'hwyr'.




Mae'r gweithredoedd hyn yn ymwneud â dau archwiliad:

- **Prosesau Debyd Uniongyrchol** - Nid yw Incwm, Hamdden a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnig proses sefydlu 'Debyd Uniongyrchol Di-bapur'. Ni wnaethpwyd cynnydd yn y gwasanaethau Incwm a Gwasanaethau Cymdeithasol, ond bydd Hamdden yn cyflwyno'r broses ym mis Mehefin 2026.
- **Rheolaethau Atal Twyll mewn perthynas ag ad-daliadau Refeniw** - mae'r risg o dwyll yn uwch oherwydd gellir prosesu ad-daliad hyd yn oed os nad yw enw'r talai ar y system ad-daliadau'n cyd-fynd ag enw talai cyfrif banc y sawl sy'n derbyn yr ad-daliad. Mae'r risg yn fwy oherwydd nifer y balansau credyd segur sy'n ddyledus. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r mater gyda'n cyflenwr, Bottomline.

# Blaenoriaethau

## Blaenoriaethau Tymor Byr/Canolig

Mae ein gwaith presennol i'w weld yn yr adran Gwaith ar y Gweill yn gynharach yn yr adroddiad. Mae'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2026-27 yn mynd rhagddo'n dda.

Mae gwaith yn parhau ar y Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd 2025-2028.

## Blaenoriaethau yn y Tymor Hwy

Mae gofynion y safonau archwilio mewnol newydd, sef y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang yn Sector Cyhoeddus y DU, yn parhau i gael eu gweithredu.

Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) wedi lansio Pecyn Cymorth Asesu Cydymffurfiaeth sy'n ymgorffori Nodyn Cymhwyso a Chod Ymarfer CIPFA ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU ynghyd â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS).

Rydym hefyd wedi cwblhau dadansoddiad o'r bylchau pan ddaeth y Safonau i rym, ac fe wnaethom gyflwyno adroddiad ar hyn i'r pwyllgor ym mis Gorffennaf 2025. Yn ystod 2026-27 byddwn yn cwblhau asesiad cydymffurfiaeth fel y gall y cyngor fod yn hyderus ein bod yn cydymffurfio â'r GIAS yn Sector Cyhoeddus y DU.